YSGOL UWCHRADD TYWYN

POLISI FFÔN SYMUDOL

Nid yw'r ysgol yn caniatáu i ddisgyblion fod ym meddiant ffôn symudol yn ystod oriau ysgol (gan gynnwys amser egwyl ac amser cinio) am y rhesymau canlynol:

- gwerth y ffôn symudol (a'r temtasiwn o ddwyn)
- y posibilrwydd fod y ffôn symudol yn mynd i amharu ar wersi
- y defnydd o ffôn symudol i fwlio
- y defnydd o ffôn symudol i dynnu lluniau/ffilmio staff a disgyblion
- y defnydd o ffôn symudol fe cyfrifiannell

1. Petai rhiant yn credu ei bod yn angenrheidiol fod eu plentyn yn gallu defnyddio eu ffôn symudol cyn cychwyn gwersi neu ar ôl ysgol, gallant ddod â'u ffôn i'r ysgol ac yna ei roi i'r tiwtor dosbarth am y diwrnod. Bydd bagiau plastig wedi'u labelu yn cael eu darparu a bydd ffonau'n cael eu cadw'n ddiogel mewn sêff trwy'r dydd. Fe'u dychwelir yn ystod gwers olaf pob dydd.

2. Os yw disgyblion angen cysylltu â rhieni yn ystod y dydd gallant ddefnyddio ffôn yn swyddfa yr ysgol.

3. Gall unigolion gael eu heithrio o'r polisi yma am resymau arbennig (e.e meddygol). Mewn achosion o'r fath trafodir y mater gyda rhieni a hysbysir y staff.

4. Ar deithiau ysgol ble mae'r daith yn dychwelyd yn ôl i Dywyn ar ôl 2.45 yna caniateir i ddisgyblion fynd a ffôn symudol gyda hwy ar y daith.

5. Os yw disgybl yn cael ei ddal gyda ffôn symudol yn ystod oriau ysgol, dilynir y drefn ganlynol:

   - cymryd y ffôn oddi ar y disgybl a'i gadw yn ddiogel tan ddiwedd y diwrnod ysgol. Bydd gofyn i Riant/Gwarcheidwad gasglu'r ffôn.
   - os oes amheuaeth rhesymol fod y ffôn wedi ei ddefnyddio mewn modd amhriodol yn yr ysgol (e.e. tynnu lluniau o fewn gwersi, ffilmio digwyddiadau yn yr ysgol ac ati) yna archwilir y ffôn ym mhresenoldeb y disgybl a bydd yn cael ei gadw i'w archwilio gan yr heddlu os oes angen.